



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



RHEOLWR PROSIECT LEAF

£25,000 - £27,000 pro rata

22.5 awr yr wythnos, Cytundeb Tymor Penodol am 24 mis

Wedi'i leoli yn Swyddfa Tir Coed yn Aberystwyth, Arberth, Caerfyrddin neu Bowys

Mae Tir Coed yn chwilio am gyfathrebwr trefnus iawn gyda rhinweddau arwain rhagorol er mwyn rheoli prosiect LEAF (Dysgu i Alluogi Cyflawniad a Boddhad) yn ystod dwy flynedd olaf y prosiect 5 mlynedd hwn. Mae hon yn rôl newydd, a grëwyd o ganlyniad i ailstrwythuro staff lefel uwch.

Bydd gennych brofiad o reoli pobl a systemau a byddwch yn awyddus i wneud Cymru yn lle tecach a mwy gwyrdd i bawb.

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm brwdfrydig a medrus o 26, gan weithio i gyflwyno rhaglenni dysgu a lles i rai o'r rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas ar draws siroedd Dyfed Powys.

<https://www.youtube.com/watch?v=8QQ26FUtUwc>

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, nodwch y broses a ganlyn os gwelwch yn dda:

Ymgeisio: Anfonwch lythyr eglurhaol (2 dudalen o bapur A4) yn nodi'n benodol sut yr ydych yn cyflawni meini prawf hanfodol a dymunol y fanyleb person isod a CV (2 dudalen) byr i admin@tircoed.org.uk

Dyddiad cau: Dydd Sul 4 Hydref 2020

Dyddiad cyfweliadau: 19 Hydref 2020



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



MANYLEB SWYDD:

Mae'r prosiect LEAF ymestyn dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru ac yn creu cyfleoedd i bobl gysylltu gyda choetiroedd trwy weithgareddau lles, cyfres o gyrsiau hyfforddiant achrededig, a gyda'u potensial eu hunain drwy fentora, rhaglenni cynnydd a chymorth unigol ar gyfer y 'cam nesaf', gan gynnwys lleoliadau gwaith a dechrau eu busnesau hunangyflogedig eu hunain.

<http://tircoed.org.uk/what-we-do>

Mae prosiect LEAF wedi'i gynllunio i alluogi newid dwfn ym mywyd pob person, gan gynnig dilyniant pwrpasol sy'n gweithio gyda sgiliau a dyheadau'r unigolyn.

Mae adroddiad diwedd blwyddyn 2019 yn rhoi rhagor o wybodaeth:

<http://Tircoed.org.uk/blog/end-of-year-Report-November-2018-2019>

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- 1) Sicrhau bod prosiect LEAF yn cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb, a bod allbynnau a chanlyniadau'r prosiect yn cael eu bodloni, eu cofnodi, eu hadrodd a'u rhannu.
- 2) Dyletswyddau rheoli llinell ar gyfer y pedwar cyd-gydllynydd LEAF sirol sy'n gyfrifol am weithgareddau a thîm darparu o 3 yng Ngheredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Gâr.
- 3) Hyrwyddo'r prosiect ar lefel sirol a chenedlaethol, gan weithio'n agos gyda'r tîm rheoli a mynychu cyfarfodydd ar lefel strategol.
- 4) Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid i reoli cyllideb flynyddol y prosiect a monitro gweithgaredd cyllidebol ym mhob un o'r siroedd
- 5) Llunio adroddiadau misol a blynyddol yn ogystal ag adroddiad prosiect terfynol a phoster effaith. <http://Tircoed.org.uk/past-projects>
- 6) Canfod a chwrrdd â thirfeddianwyr i ddehongli cynlluniau rheoli tir, sicrhau caniatâd ar gyfer unrhyw strwythurau a datblygu cytundebau.
- 7) Adeiladu ar rwydwaith Dyfed-Powys o asiantaethau cyfeirio, perchnogion tir a phartneriaid.



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



- 8) Sicrhau bod holl bolisiau a gweithdrefnau Tir Coed yn cael eu dilyn yn ystod gweithgareddau Tir Coed; a chynnig mewnbwn ar gyfer eu datblygu a'u hadolygu.
- 9) Diogelu iechyd, diogelwch a lles staff a buddiolwyr prosiect LEAF.
- 10) Arwain cyfarfodydd tîm bob deufis.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD:

Mae'r galluedd a ganlyn yn

HANFODOL:

- O leiaf 4 blynedd o brofiad mewn swydd rheoli prosiect.
- Profiad o reoli a monitro cyllidebau rhaglenni a ariennir
- Y gallu i drefnu a rheoli amser yn effeithiol, gan gwrdd â therfynau amser eich hun a chefnogi eraill yn eich tîm i gwrdd â'u rhai nhw
- Y gallu i arwain tîm, datblygu unigolion, rheoli gwrthdaro yn effeithiol, ac ennyn ymddiriedaeth a hyder
- Y gallu i rwydweithio'n hyderus a gweithio gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gydag ystod amrywiol o bobl drwy gyfrwng y cyfryngau amrywiol
- Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys profiad o ddefnyddio Microsoft Word, Outlook, Excel, PowerPoint.
- Y gallu i gynhyrchu adroddiadau cynnydd cryno yn rheolaidd.

MANTEISIOL:

- Y gallu i siarad Cymraeg yn rhugl ac i ysgrifennu yn Gymraeg i safon uchel
- Dealltwriaeth o goetiroedd a rheoli coetiroedd, y gwaith sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli cynaliadwy a manteision cymdeithasol coetiroedd
- Profiad o farchnata a gwerthu
- Gwybodaeth/dealltwriaeth neu brofiad o weithio gydag unigolion neu grwpiau dan anfantais
- Gwybodaeth/dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



ARALL

Rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar drwydded yrru gyfredol a'ch cludiant preifat eich hun, sydd wedi ei yswirio at ddefnydd busnes, oherwydd bydd llawer o'ch gwaith yn cynnwys ymweld â chyfranogwyr, gwneud gweithgareddau ar y safle a mynd i gyfarfodydd. Byddai brwdfrydedd mawr i gefnogi cymunedau yng Nghymru a gwella coetiroedd at ddibenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn fanteisiol.

GWYBODAETH YCHWANEGOL:

Cyflog:

Y cyflog yw £25,000 pro rata ac mae'n cael ei dalu'n fisol fel ôl-daliad. Gydag amser, ac wrth i weithgaredd ychwanegol gael ei sicrhau, ceir cyfle i gynyddu'r cyflog hwn.

Oriau:

Mae hon yn swydd ran-amser yn seiliedig ar 22.5 awr yr wythnos (3 diwrnod). Efallai y gellir cytuno i weithio'n hyblyg drwy drefniant. Os bydd angen bod yn bresennol ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, yn ychwanegol at yr oriau gwaith arferol, gellir rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith yn lle'r oriau hynny.

Gall fod cyfle i'r oriau hyn gynyddu os bydd gweithgarwch y sir yn datblygu ac yn ehangu.

Gwyliau Blynnyddol:

Bydd deiliad y swydd yn cael 20 diwrnod o wyliau blynnyddol y flwyddyn pro rata, ynghyd â gwyliau banc.

Cyfnod prawf:



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



Bydd cyfnod prawf o 6 mis ar gyfer y swydd hon, gan ddod i ben gyda chyfarfod â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod deiliad y swydd yn addas i'w swydd.

Lleoliad:

Bydd lleoliad y swydd yn seiliedig ar leoliad yr ymgeisydd llwyddiannus. Gallai lleoliad y swyddfa fod yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro neu Bowys.

Teithio a Chynhaliath:

Pan fydd gofyn i staff deithio ar y ffordd i wneud busnes swyddogol nad yw'n daith i leoliadau gwaith arferol, darperir lwfans milltiredd o 40c y filltir am ddefnyddio cerbyd preifat.

Buddion:

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm cefnogol a gweithgar, sy'n cael ei sbarduno gan yr awydd i wneud gwahaniaeth i'w cymunedau lleol a bod yn rhan o ateb i rai o'r materion anoddaf y mae ein cymunedau gwledig yn eu hwynebu; newid yn yr hinsawdd, colli bio-amrywiaeth, anhwylder diffyg natur, diffyg cyfleoedd economaidd, ac afiechyd.

Yn ogystal, mae Tir Coed yn cynnig:

- Cynllun pensiwn
- O leiaf 2 'ddiwrnod i ffwrdd' bob blwyddyn yn ymweld â mannau gwyrdd
- Hyfforddiant mewnol ac allanol
- Tîm dwyieithog, cyfeillgar a chefnogol; deinamig a chydweithredol
- Cyfle i ddatblygu'r rôl dros amser
- Gweithio hyblyg ar gael
- Sefydliad diogel, uchel ei barch a phrofiadol gyda chynllun strategol 5 mlynedd, cynllun busnes, model darparu ardderchog a gweledigaeth a chenhadaeth glir.



DYSGU A LLES YN YR AWYR AGORED



"GADEWCH I NI FOD YN RHAN O' R ATEB GYDA' N GILYDD"